



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

11 Mehefin 2020

11:00 yb to 12:00 yp

Trwy Skype

Yn bresennol:	Teresa Owen (Cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Alwyn Jones, Morwena Edwards, Catherine Elaine Jones, Clare Budden, Y Cyng. Bobby Feeley, Y Cyng. Christine Jones, Y Cyng. Joan Lowe (JLo), Y Cyng. Louise Emery, Y Cyng. Dafydd Meurig, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Helen Corcoran, Jennie Lewis (JLe), Jenny Williams, John Gladston, Judith Greenhalgh, Kevin Roberts, Lynda Colwell, Mark Wilkinson (MWil), Mary Wimbury (MWim), Nicola Stubbins, Peter Williams, Rob Smith, Shan Lloyd Williams, Y Cyng. Ieuan Williams (yn bresennol yn lle'r Cyng. Llinos Medi Huws)
Ymddiheuriadau:	Chris Stockport, Y Cyng. Llinos Medi Huws, Neil Ayling, Roma Hooper, Y Cyng. Christine Jones, Lucy Reid, Y Cyng. Llinos Medi, Bethan E Jones, Lesley Singleton, Marian Wyn Jones Hefyd yn bresennol: Add names here

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

Nodwyd absenoldeb cyfieithu ar yr un pryd rhithwir ac mae'n cael ei archwilio ar hyn o bryd.

2 Cofnodion a chamau gweithredu o'r ddau gyfarfod diwethaf

Mawrth 2020

Camau gweithredu wedi'u cwblhau:

- Llythyr gan gadeirydd yr BPRh at y CGG - ni chafwyd ymateb
- Nodyn briffio Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol wedi'i ddsbarthu

Camau gweithredu eto i'w cyflawni:

- BJE / NS i friffio'r Prif Swyddogion Gweithredol ar dâl - canslwyd cyfarfod y Prif Swyddog Gweithredol oherwydd Covid-19 - BJE / NS i sicrhau slot yn y cyfarfod Prif Swyddog Gweithredol nesaf sydd ar gael
- Proses lywodraethu BPRh ar gyfer creu ffrydiau cyllid grant - TO / BJE i drafod drafft a grëwyd gan BJE
- Ysgol Feddygol Gogledd Cymru – Eitem ar y rhaglen yn y dyfodol
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Codau a Chanllawiau wedi'u diweddarau: Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth) a phapur drafft Ffocws a Blaenoriaethau - Eitem ar y rhaglen yn y dyfodol
- Diweddariad y Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol a Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig y Gogledd Orllewin (IAS) - Eitem ar y rhaglen yn y dyfodol
- GIP / cymorth cyllido i gartrefi gofal - Eitem ar y rhaglen yn y dyfodol

Mai 2020

Camau gweithredu wedi'u cwblhau:

- Cadeirydd i ysgrifennu at LIC i godi'r mater o gyllid gofal nyrsio i gyfateb y cyllid sydd ar gael ar gyfer lleoliadau gofal cymdeithasol.
- Anfon manylion y gwasanaethau trais domestig yn IACC i HC
- Os oes gan unrhyw un ddi-ddordeb mewn derbyn gwybodaeth bellach am PPE, cysylltwch â SLW a fydd yn eich cyfeirio at Cartrefi Cymunedol Cymru, sy'n arwain ar y broses dendro ar ran Grŵp Cynefin.

Dim camau gweithredu heb eu cwblhau.

3 Grŵp Adferiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Grŵp Adferiad H & SC) - Judith Greenhalgh

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan JG ar y gofyniad i sefydlu Grŵp Adferiad i & GC.

Hysbysodd JG mai pwrpas y grŵp fydd cynnal goruchwyliaeth strategol ranbarthol o'r rhaglenni adferiad ar gyfer iechyd a gofal, gan adrodd i'r Grŵp Cydlynu Rhanbarthol (RCG) ac i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Y GCRh fydd â'r rôl gydlynu ganolog ar gyfer y cyfnod adferiad ac mae'n ymgorffori'r themâu canlynol:

1. Economi - dan arweiniad Alwen Williams NWEAB

2. Iechyd a Gofal Cymdeithasol - dan arweiniad Judith Greenhalgh Prif Swyddog CSDd
3. Gwydnwch Cymunedol - dan arweiniad Ian Bancroft Prif Swyddog Gweithredol CBSW
4. Iechyd y Cyhoedd - dan arweiniad Teresa Owen Cyfarwyddwr Gweithredol BIPBC

Hysbysodd JG bod gwaith ar y Cylch Gorchwyl I & GC wedi'i gwblhau gan BJE, sy'n cynnwys yr aelodaeth, cyfrifoldebau a swyddogaethau a awgrymir, a'r strwythur llywodraethu a chyflawni arfaethedig.

Rôl yr BPRh fydd harneisio persbectif partneriaeth o fewn dull rhanbarthol o adferiad ar draws partneriaid y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

Mae JG yn gofyn am adborth gan aelodau BPRh ar gylch gorchwyl y Grŵp Adfer I & GC ac ar ymrwymiad aelodau BPRhGC i weithdy yn y dyfodol i drafod y blaenoriaethau (tymor byr a thymor hir) ar draws y rhanbarth ar gyfer y Grŵp Adferiad I & GC.

Nododd CB fod aelodaeth y cylch gorchwyl yn canolbwyntio'n helaeth ar uwch swyddogion y sector cyhoeddus a holodd sut y bydd persbectif y sector preifat yn cael ei gynnwys mewn adborth a mewnbwn.

Atebodd JG gan nodi y bydd yr aelodaeth yn esblygu a bod y llwybr a gymerwyd yn defnyddio'r strwythurau a'r fforymau a sefydlwyd eisoes. Mae gan bob aelod sy'n uwch swyddog gysylltiadau agos â'r sectorau annibynnol a phreifat hefyd.

Nododd MWim ystyried y sylwadau uchod a byddai'n croesawu cymryd rhan yn y gweithdy a gosod paramedrau. Fodd bynnag, nododd bwysigrwydd mewnbwn gan bartneriaid allanol perthnasol.

Diolchodd JG i MWim am y sylwadau a nododd y bydd angen i'r atebion weithio i bawb, ac y bydd gan yr BPRh oruchwyliaeth allweddol o'r gwaith.

Cadarnhaodd BJE hefyd y gallai'r Grŵp Adferiad I & GC hefyd sefydlu is-grwpiau neu grwpiau tasg a gorffen i gyflawni meysydd gwaith penodol lle mae angen datrysiad rhanbarthol, a bydd cynlluniau adferiad yn weithredol trwy'r tri Bwrdd Gwasanaethau Integredig Ardal.

Nododd sawl aelod o BPRhGC bwysigrwydd cynrychiolaeth ranbarthol a chytuno i fod yn rhan o weithdy yn y dyfodol i gwmpasu blaenoriaethau a gosod paramedrau.

Cadarnhawyd hefyd y byddai'r eitem hon yn eitem sefydlog ar raglen BPRhGC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

Camau Gweithredu

- Cylchredeg dyddiad y gweithdy - BJE
- GAI&GC yn eitem sefydlog ar rhaglen y BPRh GC - RW

4 Adroddiad Diwedd Blwyddyn Gofalwyr LIC 2019/2020

Derbyniodd y bwrdd adroddiad gan FJ ar adroddiad Diwedd Blwyddyn Gofalwyr LIC 2019-20.

Cydnabu FJ y gwaith sylweddol a gwblhawyd ar yr adroddiad gan Kim Mason o'r tîm rhanbarthol.

Manylodd yr adroddiad ar ddefnyddio'r cyllid grant ar gyfer 2019/20, a ddyrannwyd i BIPBC i weithio ar y cyd â'r holl bartneriaid i wella bywydau gofalwyr yn unol â'r blaenoriaethau cenedlaethol:

1. Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu
2. Nodi a chydabod Gofalwyr
3. Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth

Defnyddiwyd dyraniad 2019-2020 i:

- Cefnogi meddygfeydd i ddatblygu Ymwybyddiaeth o Ofalwyr a ffyrdd o weithio i gefnogi gofal
- Cefnogaeth i ofalwyr mewn perthynas â chynllunio rhyddhau'r person maent yn gofalu amdanynt o'r ysbyty
- Prosiectau tymor byr / untro; Gweithredu dros Blant, Together in Dementia Everyday (TIDE) a NEWCIS

Mae Astudiaethau Achos wedi'u cynnwys yn yr adroddiad i dynnu sylw at y gweithgarwch a gynhaliwyd ac mae'r llithriant wedi'i ddefnyddio i gefnogi gwaith Covid.

Cadarnhaodd FJ fod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo yng nghyfarfod diweddar y Grŵp Arweinyddiaeth a'i nodi gan Dîm Gweithredol BIPBC.

Cydnabu aelodau BPRhGC y gwaith a gwblhawyd a chytunwyd cymeradwyo adroddiad diwedd blwyddyn Gofalwyr 2019-2020.

Cyllid Gofalwyr LIC 2020/2021

Cadarnhaodd FJ y bydd cyllid Gofalwyr 2020 - 2021 yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Arweinyddiaeth ddiwedd mis Mehefin.

Nododd FJ hefyd y byddai hefyd yn berthnasol ailgychwyn Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru (NWCOG) i drafod cyllid 2020/21, a bydd BJE a FJ yn cwrdd â chydweithwyr cyfathrebu mewn perthynas â'r astudiaethau achos yn yr adroddiad.

Dyweddod EH fod YGAC yn canolbwyntio ar gefnogi gofalwyr gydag arolwg ar y gweill i ddeall profiad Gofalwyr dros yr ychydig fisoedd diwethaf a hefyd bod arolwg cyhoeddus ehangach ar wahân ar y gweill. Croesawodd YGAC adborth, ac anogodd y rhai sy'n gysylltiedig i gymryd rhan.

Camau Gweithredu

- Anfon adroddiad Diwedd Blwyddyn Gofalwyr 2019-20 i LIC - FJ
- Trefnu cyfarfod NWCOG ym mis Gorffennaf - FJ

5 Datganiad Ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog ar Ofalwyr - Jennie Lewis

Amlygodd JLe fod rôl gofalwyr teuluol di-dâl wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar gyda dros 200,000 o ofalwyr teuluol yng Nghymru wedi cymryd rôl ofalgar am y tro cyntaf yn ystod Covid-19:

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rôl gofalwyr teuluol di-dâl sydd wedi "helpu gwasanaethau allweddol yng Nghymru i ymdopi â'r pwysau cynyddol a achosir gan y coronafeirws," ac yn tanlinellu'r disgwyliad y bydd awdurdodau lleol yn cynnal hawliau gofalwyr o dan Ddeddf 2014.

"Nid yw penderfyniadau a wneir gan unigolion a'u teuluoedd mewn ymateb i'r pandemig yn darparu sylfaen ar gyfer penderfynu a ddylid neu sut i ddiwallu anghenion yn y dyfodol. Nid yw galluoedd pobl i ymdopi yn ystod cyfnod o argyfwng yn arwydd o'u gallu i ddarparu gofal a chefnogaeth am gyfnodau hir."

Gofynnodd JLe i'r NWRPB nodi datganiad y Dirprwy Weinidog a gofynnodd beth sydd mewn grym yn y cyfnod presennol a'r cyfnod adfer i gefnogi Gofalwyr.

Cynigiwyd y gallai Gofalwyr gael eu trafod yn y gweithdy BPRh, a gallai hyn hefyd fod ar raglen cyfarfod NWCOG ym mis Gorffennaf a gellid bwydo'r canlyniadau i'r gwaith adfer.

Soniodd PW am adroddiad Gofalwyr Cymru, a gofynnodd yr aelodau am i'r adroddiad hwn gael ei ail-gylchredeg.

Camau Gweithredu

- Ail-ddosbarthu adroddiad Gofalwyr Cymru - RW

6 Ymateb Mencap - Jennie Lewis

Gofynnodd JLe i'r Bwrdd nodi ymateb Mencap i ddata gan GIG Lloegr ar farwolaethau pobl ag anabledd dysgu oherwydd COVID-19, sy'n nodi bod cyfradd y marwolaethau oherwydd COVID-19 ymhlith pobl ag anawsterau dysgu yn uwch na'r gyfradd ymhlith pobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Gofynnodd JLe hefyd a oedd data ar gael ar farwolaethau COVID-19 ymhlith pobl ag anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru, ac a allai partneriaid gynghori'r Bwrdd pa fesurau sydd ganddynt mewn grym i sicrhau bod pobl ag anawsterau dysgu

yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi'n llawn yn ystod argyfwng y coronafeirws, yn enwedig y rhai mewn lleoliadau byw â chymorth a gofal preswyl.

Rhannodd NA hefyd bryderon a hysbysodd fod y Tîm Trawsnewid Anableddau Dysgu hefyd yn ymwybodol o'r mater hwn, ac ymrwymodd NA i fynd ar drywydd hyn gyda chydweithwyr LIC.

Cododd JLe bryder ynghylch canslo gwiriadau iechyd blynyddol, sgrinio sy'n darparu ymyrraeth gynnar ac atal.

Hysbysodd NA am wefan newydd sy'n cael ei datblygu fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid Anabledd Dysgu - www.getcheckedoutnorthwales.org

Cytunodd NA i fynd ar drywydd hyn gyda JLe y tu allan i'r cyfarfod.

Camau Gweithredu

- NA i drafod y mater uchod gyda a JLe y tu allan i'r bwrdd.

7 Unrhyw Fusnes arall – dim byd i'w arodd

8 Er Gwybodaeth:

Gwasanaethau Cymunedol o'r Maint Cywir i Gefnogi Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty - adroddiad cenedlaethol

9 Dyddiad y Cyfarfod nesaf:

Dydd Gwener 10 Gorffennaf 2020 – bydd gwahoddiad i gyfarfod skype yn cael ei gylchredeg

9.00am - 11.30am (tua)